

Atgyweiriadau

Atgyweiriadau

Bydd y ffordd y caiff eich tŷ ei ofalu amdano yn bwysig i chi.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i rhannu'n chwe adran fel a ganlyn:-

- Rhoi gwybod am waith atgyweirio
- Gwaith atgyweirio yr ydych chi'n gyfrifol amdano
- Gwaith atgyweirio y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano
- Diogelu eich eiddo
- Yswiriant a Diogelwch
- Gwelliannau

I roi gwybod am waith atgyweirio defnyddiwch y rhifau canlynol:

- 029 20872088 i roi gwybod am waith atgyweirio newydd yn unig (24 awr ar gyfer atgyweiriadau brys)
- Mae'r swyddfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau 8.30am tan 4.30pm. Dydd Gwener 8.30 am - 3.30 pm

Neu gallwch ddefnyddio'r ffôn adrodd gwaith atgyweirio am ddim sydd ar gael mewn rhai Cymorthfeydd Gwasanaethau.

Mae tri chategori o waith atgyweirio a wneir o ddydd i ddydd.

- **Gwaith Argyfwng** (ymateb cyn pen 2 awr – cwblhau cyn pen 24 awr)
- **Gwaith Brys** (5 diwrnod gwaith)
- **Gwaith Cyffredinol** (25 diwrnod gwaith)

Proud to Deliver
Yn Falch o Gyflawni



Mae **Gwaith Argyfwng** yn cynnwys pan fo perygl y caiff rhywun ei anafu a/neu y caiff eiddo ei ddifrodi'n sylweddol. Dyma rai enghreifftiau:

- Pan fo eiddo heb ei ddiogelu ar ôl i rywun dorri i mewn iddo neu oherwydd fandaliaeth.
- Pan fo tenant oedrannus mewn perygl neu wedi cael ei gloi allan o'r eiddo neu ei gloi y tu mewn iddo.
- Pan nad oes cyflenwad dŵr o gwbl neu pan fo pibelli neu danciau dŵr wedi byrstio ac wedi achosi llifeiriant difrifol (pan nad oes modd diffodd y stopfalf). Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod lleoliad y stopfalf ar gyfer diffodd eich cyflenwad.
- Pan fo'r goleuadau mewnol a/neu gyflenwad pŵer yn methu'n gyfan gwbl neu pan fo gosodiad trydanol neu nam peryglus.
- Gollyngiad Nwy - Gwnewch y siŵr eich bod yn gwybod sut i ddiffodd y cyflenwad nwy wrth y falf rhag ofn y bydd argyfwng. Peidiwch byth â cheisio delio â diffygion eich hun. Gall unrhyw ollyngiad nwy fod yn beryglus a dylid rhoi gwybod amdano'n syth i gwmni Wales and West Utilities.
- Pan fo'r system wresogi wedi torri i lawr yn gyfan gwbl rhwng mis Tachwedd a mis Ebrill a bod rhywun sy'n oedrannus, yn anabl neu faban dan chwe mis oed yn y cartref. Gellir darparu offer gwresogi dros dro os nad oedd modd i ni atgyweirio'r system ar unwaith. Ni fyddwn yn galw ar ôl 10pm oni fydd y tymheredd yn syrthio'n is na'r pwynt rhewi (fel arall byddwn yn galw y diwrnod canlynol). Ceidw'r Cyngor yr hawl i weithredu'n ôl disgrisiwn mewn amgylchiadau eithriadol.
- Tŷ bach wedi blocio (os mai dim ond un tŷ bach sydd yn eich cartref).
- Caiff unrhyw waith gwydro ei ddiogelu pan fo perygl neu pan fo diogelwch eich cartref yn y fantol. Atgyweirio to - pan fo dŵr yn gollwng yn sylweddol neu unrhyw ddigwyddiad arall a ystyrir yn beryglus.
- Pan fo goleuadau grisiau cymunedol yn methu.
- Pan fo synwryddion mwg yn methu.
- Adeiladau peryglus.

Bydd eich cartref yn cael ei wneud yn ddiogel cyn pen 24 awr a chaiff unrhyw waith atgyweirio ei gwblhau fel rhan o'r gwaith Brys a Cyffredinol. Yn ystod oriau swyddfa dylech roi gwybod am bob argyfwng drwy'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.

Mae **Gwaith Brys** nad yw'n dod o dan y categori argyfwng yn cynnwys:

- Systemau dŵr poeth a/neu systemau gwresogi diffygiol.
- Gwaith plymio (nid yw hyn yn cynnwys atgyweirio cwterydd a sianeli gorlif sydd wedi'u cynnwys dan y pennawd atgyweirio Cyffredinol).
- Gwaith gosod gwydr.
- Namau trydanol.

Caiff unrhyw waith atgyweirio sydd angen ei wneud ar frys ei gwblhau cyn pen 5 diwrnod gwaith.

Gwaith Atgyweirio Cyffredinol yw unrhyw waith atgyweirio arall a wneir o ddydd i ddydd nad yw'n perthyn i'r categori gwaith Argyfwng neu waith Brys. Caiff y rhain eu cwblhau cyn pen 25 diwrnod gwaith.

Wrth roi gwybod am waith atgyweirio eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr fod ganddynt y rhif ffôn cywir ar eich cyfer. Mae hyn yn bwysig gan mai'r rhif hwn a ddefnyddir i drefnu apwyntiad ar gyfer gwneud y gwaith.

- Os yw'r gwaith atgyweirio yn waith syml caiff archeb ei chodi ar unwaith a rhoddir cyfeirnod atgyweirio i chi mewn perthynas â hi. Bydd gofyn i chi gadw'r cyfeirnod yn ddiogel rhag ofn y bydd angen i chi ffonio ynghylch yr un gwaith eto.
- Mewn rhai achosion bydd angen i swyddog technegol gysylltu â chi i gael rhagor o fanylion cyn y gellir codi archeb.

- Os bydd rhywun yn galw heibio a chithau wedi mynd allan byddwn yn gadael cerdyn yn nodi hynny. I drefnu apwyntiad arall ffoniwch y rhif ffôn sydd ar y cerdyn cyn pen 2 ddiwrnod gwaith.
- Os nad ydych yn ffonio o fewn yr amser a nodir caiff yr archwiliad neu archeb waith ei chanslo. Bydd angen i chi gysylltu â'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau i ail-godi'r archeb.

Mae Llywodraeth wedi gosod yr amserlenni canlynol ar gyfer gwneud rhai mathau o waith:

Problem	Cynfyngiad Amser (mewn diwrnodau waith)
Colli pŵer trydan yn gyfan gwbl	1
Colli pŵer trydan yn rhannol	3
Gosodiad trydanol, soced pŵer neu golau anniogel	1
Colli cyflenwad dŵr yn gyfan gwbl	1
Colli cyflenwad dŵr yn rhannol	3
Colli cyflenwad nwy yn gyfan gwbl neu'n rhannol	1
Ffliw wedi blocio ar dân agored neu fwyler	1
Colli gwresogi dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhwng 31 Hydref a 1 Mai	1
Colli gwresogi dŵr yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhwng 30 Ebrill a 1 Tachwedd	3
Draen dŵr budr neu bibell carthion sydd wedi blocio neu'n gollwng neu (os oes tŷ bach arall sy'n gweithio yn y tŷ) bowlen tŷ bach	1
Tŷ bach ddim yn fflysio (os nad oes tŷ bach arall sy'n gweithio yn y tŷ)	1
Sinc, bath na fasn wedi blocio	3
Tap na ellir ei droi	3
Dŵr yn gollwng o bibell ddŵr neu wresogi, tanc neu danc dŵr	1
To sy'n gollwng	1
Ffenestr, drws neu glo diffygiol	1
Canllawiau sy'n rhydd neu wedi dod i ffwrdd yn gyfan gwbl	3
Llawr coed neu risiau pydredig	3
Nid yw ffôn mynediad yn gweithio	7
Nid yw ffan wagio fecanyddol mewn cegin neu ystafell ymolchi fewnol yn gweithio	7

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i wneud y gwaith o fewn yr amserau a nodir [heblaw o dan yr amgylchiadau canlynol](#):

- Mae'r gwaith y gwnaethoch gais amdano yn waith a gynllunnir (h.y. gwasanaeth nwy blynyddol neu waith sy'n ofynnol cyn gwneud gwaith peintio allanol). Os felly cewch wybod pryd y caiff y gwaith ei wneud.
- Gwaith sy'n rhaid ei wneud gan gontractwyr arbenigol.
- Nid ydych wedi gadael i'r gweithwyr ddod i'ch cartref ar adeg resymol i wneud y gwaith.
- Mae'r Cyngor neu ei gontractwyr yn ei chael yn anodd cael gafael ar unrhyw ddarnau sbâr angenrheidiol, neu mae'r tywydd wedi bod yn rhy wael i'w galluogi i wneud y gwaith.

Petaem yn methu â gwneud y gwaith o fewn yr amserlen a nodwyd, mae hawl gennych i drefnu i rywun arall wneud y gwaith ar eich rhan. Fodd bynnag, ni ddylai cost y gwaith atgyweirio hwnnw fod yn uwch na £250.00. Rhaid i chi roi gwybod i'ch Swyddog Tenantiaeth os ydych yn bwriadu defnyddio'ch hawl i atgyweirio ac mae'n rhaid i chi fod yn denant diogel i gael yr hawl honno.

Mae gennych hawl i wneud rhai mathau o waith atgyweirio eich hun os ydych yn dymuno gwneud hynny. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau drwy'r Swyddog Tenantiaeth os ydych am beintio y tu allan i'ch eiddo.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhai mathau o waith atgyweirio- ceir esboniad o'r rhain yn eich cytundeb tenantiaeth.

Mae'n rhaid i chi drefnu eich yswiriant cynnwys eich hun (mae gan y Cyngor ei Yswiriant Cynnwys ei hun – mae'r manylion ar y daflen wybodaeth sydd ar wahân i'r wybodaeth hon).

Mae gwaith atgyweirio ychwanegol yr ydych yn gyfrifol amdano petaech yn llwyddo i gael eiddo Cyngor neu'n cyfnewid eiddo am eiddo Cyngor yn cynnwys gwaith ar osodiadau **na** osodwyd gan y Cyngor. Er enghraifft ystafelloedd ymolchi, ceginau, drysau patio, gosodiadau golau ansafonol.

Difrod a achosir trwy ddamwain - ni fydd y Cyngor yn atgyweirio unrhyw eitem sy'n ddiffygiol o ganlyniad i esgeulustod neu gam-ddefnyddio neu ddifrod a achoswyd yn ddamweiniol gan unrhyw un sy'n byw eich cartref neu eich ymwelwyr Mae hyn yn cynnwys y costau sydd ynghlwm â mynd i mewn i'r eiddo a gosod cloeon newydd petaech yn colli eich allweddi neu'n achosi difrod i osodiadau megis drysau neu ffenestri. Caiff y tenant ofyn i'r Cyngor wneud y gwaith ond bydd hynny ar eu traul eu hunain.

Nodwch: Os ydych yn gofyn i'r Cyngor wneud y gwaith bydd rhaid i chi dalu ymlaen llaw. Fodd bynnag, dan rai amgylchiadau efallai nad yw'n bosibl talu ymlaen llaw. Er enghraifft, nid ydych yn gallu gadael yr eiddo gan ei fod yn anniogel, mae dŵr yn gollwng yn ddifrifol neu fod gwaith yn cael ei wneud ar yr eiddo a'n bod yn canfod mai eich cyfrifoldeb chi yw talu amdano. Yn ôl ei ddisgresiwn, gall y Cyngor sefydlu Cyfrif Atgyweiriad Adferadwy i'ch galluogi i dalu'r arian yn ôl fesul tipyn.

Os oes rhywun wedi torri i mewn i'ch cartref a bod yr heddlu'n dwyn achos yn ei erbyn **efallai** y bydd rhaid i chi dalu costau unrhyw ddifrod a achoswyd i eiddo'r Cyngor. Os oedd yn rhaid i'r heddlu ddefnyddio grym i fynd i mewn i'r eiddo eich cyfrifoldeb chi yw adennill unrhyw gostau atgyweirio. Os oedd yr heddlu'n gweithredu ar sail wybodaeth anghywir / ffug dylech gysylltu â'r heddlu i ofyn iddyn nhw wneud y gwaith atgyweirio angenrheidiol nid y Cyngor.

Tu mewn eich cartref - eich cyfrifoldeb chi yw ei gadw mewn cyflwr rhesymol. Eich cyfrifoldeb chi yw talu am unrhyw eitemau a ddifrodir neu y bydd eu cyflwr yn gwaethygu drwy esgeuluso neu ddiffyg gofal o'ch herwydd chi, neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref neu gan unrhyw ymwelwyr â'ch cartref.

Os na wnewch y gwaith yr ydych yn gyfrifol amdano gall y Cyngor, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol, wneud y gwaith angenrheidiol ei hun a hawlio unrhyw gostau yn ôl oddi wrthyd chi.

Cyfrifoldeb y Cyngor, fel eich landlord, yw gwneud rhai mathau o waith atgyweirio penodol - yn dilyn diffygion a achoswyd gan draul dderbyniol - mae'r rhain wedi'u cynnwys yn eich cytundeb tenantiaeth.

Gwaith cynnal a chadw nwy – y Cyngor sy'n gwneud yr holl waith o drin offer nwy yn cynnwys gwaith atgyweirio mewn argyfwng a gwaith a wneir mewn ymateb i geisiadau am waith atgyweirio.

Caiff unrhyw offer sy'n berchen i'r tenant, y mae'r Cyngor yn cynnal profion arno, ac nad yw'n ddiogel, ei gondemnio (h.y. ni ellir ei ddefnyddio rhagor). Eich cyfrifoldeb chi wedyn fydd adnewyddu/amnewid/atgyweirio'r offer arbennig hwnnw. Nid cyfrifoldeb y Cyngor ydyw.

Gwydr - caiff gwydr ei ailosod os gallwch **brofi** yr achoswyd y difrod dan amgylchiadau o natur droseddol yn unig. (Fel rhan o'r dystiolaeth bydd gofyn i chi roi Rhif Digwyddiad i'r Cyngor). Gellir rhoi'r wybodaeth hon i'r Tîm Ymholiadau Tai.

Byddwn yn gwneud gwaith diogelu os oes perygl neu pan fo risg i ddiogelwch yr eiddo. Ond, os achoswyd y difrod yn ddamweiniol/bwriadol efallai y codir tâl arnoch.

Gall y Cyngor atgyweirio, gan godi arnoch amdano, unrhyw ddifrod a achoswyd gennych, neu a achoswyd gan rywun yr ydych wedi eu gwahodd i mewn i'r eiddo.

Deunyddiau, nwyddau a saernïaeth - bydd yn Cyngor yn adnewyddu unrhyw adeiladwaith a/neu orffeniadau yr amharwyd arnynt yn ystod gwaith atgyweirio y maent hwy yn gyfrifol amdano. Bydd y Cyngor yn adnewyddu unrhyw adeiladwaith a/neu orffeniadau pa un a yw mewn cyflwr gwael yn barod ynteu beidio pan fydd tynnu ac yn ailosod eitem y mae'n gyfrifol amdani.

Gwaith a Gynllunnir yw gwaith atgyweirio a gaiff ei gynllunio a'i gynnal i gadw eitemau mewn cyflwr da neu i amnewid eitemau sydd wedi torri. O bryd i'w gilydd, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, caiff rhai mathau o waith atgyweirio eu gwneud fel rhan o Raglen a Gynllunnir. Gall enghreifftiau o'r gwaith gynnwys:

Gwaith Atgyweirio Mewnol - Ailweirio
Ceginau (megis adnewyddu unedau cegin ac arwynebau gweithio)
Ystafelloedd ymolchi

Gwaith Atgyweirio Allanol - Gosod ffensys a rheiliau (adnewyddu llwybrau a ffensys)
Walïau a Gatïau
Polïon Lein Ddillad
Llwybrau a Rhodfeydd

Pan fyddwch yn gwneud cais am waith atgyweirio cewch wybod os yw'r gwaith yn perthyn i'r categori dan sylw. Caiff derbynneb atgyweirio ei phostio atoch a fydd yn nodi dyddiad ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn gosod targed safonol cyffredinol o ran cyflwr yr holl dai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wella ei Stoc Tai. Mae'r cynlluniau'n cynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd a drysau allanol Diogelu Drwy Ddylunio ac maent eisoes yn mynd rhagddynt.

Cynghorion Defnyddiol i Ddiogelu eich Eiddo

Barrug - gall barrug wneud difrod difrifol i bibelli, tanciau dŵr, sinciau a basnau drwy ehangiad y dŵr wrth iddo rewi mewn tywydd oer. Weithiau dim ond pan fydd hi'n dechrau dadmer a phan fydd y dŵr yn llifo drwy'r pibelli neu'r offer y daw'r difrod yn amlwg.

Ar ddechrau cyfnod o dywydd oer dylech sicrhau eich bod yn gwneud y canlynol:

- Cadw eich cartref mor gynnes ag y gallwch (os ydych yn berson hŷn gallwch gael cymorth i gadw'ch cartref yn gynnes drwy Daliadau Tanwydd Gaeaf).
- Gwybod ble i ddod o hyd i'r brif falf dŵr a sut i'w diffodd (os nad yw'r falf yn gweithio'n iawn rhowch wybod inni fel y gallwn anfon rhywun i'w hatgyweirio).

Os ydych yn gadael eich cartref yn wag am fwy nag wythnos, a hithau'n debygol oeri a thro'i'n rhewllyd, gofalu wneud y canlynol:

- Gwagiwch yr holl ddŵr o'r system drwy droi'r falf ddŵr ac yna troi'r holl dapiau ymlaen nes i'r dŵr roi'r gorau i lifo (ond peidiwch â gadael pan fydd y dŵr yn dal i lifo o'r tapiau rhag ofn bod y pibelli dal wedi rhewi gan atal y dŵr rhag llifo - gadewch y tapiau ar agor.)

D.S. Gwnewch yn siŵr fod y twymwr tanddwr a'r bwylwr wedi'u DIFFODD cyn gwagio'r system.

- Fflisiwch y tanc dŵr yn y tŷ bach i'w wacáu a rhowch halen yn y bowlen tŷ bach i atal y dŵr rhag rhewi.

Ar ôl i chi ddod yn ôl:

- Trowch y brif falf dŵr ymlaen eto a gwnewch yn siŵr bod llif ddigonol o ddŵr yn dod allan o'r holl dapiau sydd gennych cyn eu diffodd. Gwneir hyn i sicrhau nad oes aer wedi'i ddal yn y pibelli.
- Os nad yw'r gwresogyddion yn twymo, ar ôl i chi gynnau'r system wresogi am gyfnod rhesymol, diffoddwch y system a rhowch wybod am y diffyg drwy'r Llinell Atgyweiriadau.

Chwiliwch am y canlynol a dysgwch sut i'w rhoi ymlaen a'u diffodd.

- Y brif falf dŵr.
- Prif falf eich pibell cyflenwi nwy.
- Prif flwch ffiwsiau trydan
- Botwm eich system wresogi dŵr ar gyfer dŵr poeth.

Gwybod sut i ddefnyddio rheolyddion eich system wresogi.

Os nad ydych yn gallu dod o hyd i'r rhain neu os nad ydych yn gwybod sut i'w defnyddio, neu os ydych yn meddwl fod unrhyw offer yn ddiffygiol, rhowch wybod i ni drwy'r Llinell Atgyweirio.

Os oes gennych bibell sydd wedi torri dylech:

- Ddiffodd eich system gwres canolog a neu dwymwr dŵr os oes gennych un.
- Diffodd y prif dap cau (a leolir fel arfer yn y gegin o dan y sinc).
- Troi'r holl dapiau ymlaen i ddraenio'r dŵr cyn gyflymed â phosibl o'r system i'w atal rhag llifo drwy'r tŷ.
- Chwilio am darddiad y dŵr, os gallwch.
- Ffonio'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.
- Os oes dŵr yn diferu i mewn i switsys trydan neu oleuadau nenfwd, diffoddwch y cyflenwad trydan yn yr uned defnyddwyr.

Gwnewch eich gorau i drwsio'r bibell dros dro nes bydd plymar yn gallu dod allan atoch – y siawns yw os oes gennych chi bibell sydd wedi byrstio, yna bydd llawer o bobl eraill yn yr un sefyllfa ac nid oes modd iddyn nhw ddelio â phob galwad ar yr un pryd. Os yw'r dŵr yn deillio o gymal sydd wedi datgymalu, ceisiwch roi'r bibell yn ôl yn yr uniad a'i chlymu'n dynn gyda chlwytyn. Os yw'r bibell wedi hollti neu fod twll ynddi, ceisiwch gael gafael ar ddarn o glai, sebon meddal neu sylwedd tebyg, a rhwymwch hwnnw ar yr ardal gyda chlwytyn, rhwymyn neu dâp. Rhowch gynhwysydd oddi tani i ddal unrhyw ddŵr sy'n gollwng.

Ar ôl gwneud hyn cewch droi'r dŵr ymlaen eto at eich anghenion, gan sicrhau eich bod yn ei ddiffodd os nad yw'r gwaith trwsio dros dro yn foddhaol. Cofiwch ei ddiffodd eto dros nos neu os ydych yn mynd allan. Os yw'r dŵr wedi bod yn gollwng drwy olau nenfwd gyda rhosyn nenfwd neu swîts [peidiwch â chynnau'r golau](#) ond rhowch wybod am y broblem drwy'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.

Mae llawer o bethau yn achosi [tamprwydd mewn adeiladau](#). Gall y rhain gynnwys dŵr yn dod i mewn i'r adeilad o ganlyniad i gwteri diffygiol, neu leithder yn codi oherwydd pontio, neu fethiant y cwrs gwrthleithder. Caiff y math mwyaf cyffredin o damprwydd y gofynnir i ni ymchwilio iddo ei achosi gan anwedd.

Ceir [anwedd](#) pan fydd aer llaith yn cyrraedd wyneb oer ac yn gadael ei ddŵr ar yr wyneb hwnnw. Gall aer drymhau gydag anwedd dŵr o ganlyniad i goginio, golchi, baddonau poeth neu wrth sychu dillad. Fe'i gwelir fel tyfiant du yn enwedig wrth ymyl ffenestri neu mewn ardaloedd lle nad oes modd i aer gylchredeg megis tu ôl i gypyrddau mewn ceginau ac mewn ystafelloedd ymolchi.

I leihau anwedd dylech wneud y canlynol:

- Ceisiwch osgoi peth o'r dŵr sydd yn yr aer drwy sychu dillad yn yr awyr agored os yn bosibl. Os oes rhaid i chi eu sychu yn y tŷ – agorwch y ffenestr a chaewch y drws.
- Cyn belled ag y bo'n bosibl rhowch gaeadau ar sosbenni a throwch y gwres i lawr pan fydd rhywbeth yn berwi.
- Ar ôl cael bath neu gawod caewch ddrws yr ystafell ymolchi ac agorwch y ffenestr fel y gall y stêm ddianc yn syth drwyddi heb dreiddio i ystafelloedd eraill. Os oes gennych ystafell ymolchi fewnol, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi'r ffan ymlaen am o leiaf 20 munud ar ôl i chi ddiffodd y golau.
- Ceisiwch sicrhau bod digon o wres yn eich ystafelloedd fel nad oes unrhyw wyneb oer lle ceir anwedd dŵr. Hefyd, sicrhewch fod rhywfaint o awyriad ym mhob ystafell – does neb yn hoffi drafftiau, ond mae awyru yn hanfodol.
- Peidiwch â defnyddio stofiau paraffin neu nwy hylif gan eu bod yn creu dŵr sy'n trwytho eich cartref a'ch eiddo wrth iddyn nhw losgi.
- Ceisiwch sicrhau gwres cefndirol a thymheredd cyson ym mhob rhan o'ch cartref. Mae hyn yn fwy darbodus na cheisio cynhesu cartref oer.
- Os oes gennych friciau aer neu fent yn y wal neu ffenestr, peidiwch â'u cau neu byddwch yn atal y lleithder rhag dianc a rhwystro awyriad hanfodol.

Os ydych yn cael problemau'n gyson gall y Swyddogion Atgyweirio edrych i mewn i'r hyn sy'n achosi'r tamprwydd a rhoi cyngor pellach i chi.

Yswiriant a Diogelwch

Yswiriant – Os yw pibell neu danc dŵr yn byrstio neu'n gollwng oherwydd eu bod wedi'u difrodi gan rew, neu os yw eich peiriant golchi'n gorlifo, nid yw'r Cyngor yn atebol am unrhyw ddifrod a achosir i'ch eiddo chi na difrod a achosir i eiddo pobl eraill. Rhaid i chi drefnu eich yswiriant eich hun ar gyfer pethau fel hyn.

Mae rhai polisiâu yswiriant yn cynnwys difrod a achosir gan dân yn unig - gwnewch yn siŵr bod gennych bolisi sy'n cynnwys llifogydd, difrod a achosir gan rew a difrod arall megis ffenestri sydd wedi torri.

Eich cyfrifoldeb chi yw yswirio cynnwys eich cartref. Mae gan y Cyngor ei gynllun yswiriant ei hun; cysylltwch â'r adran Ymholiadau Tai am ragor o fanylion.

Diogelwch yn eich Cartref – mae modd osgoi'r rhan fwyaf o ddamweiniau sy'n digwydd yn y cartref drwy ddilyn rheolau syml:

Trydan

- Diffoddwch unrhyw offer os nad ydych yn ei ddefnyddio.
- Gwnewch yn siŵr fod yr holl blygiau wedi'u weirio'n gywir ac yn ddiogel ac nad oes unrhyw wifrau yn y golwg.
- Archwiliwch y gwifrau'n rheolaidd – peidiwch byth â defnyddio offer â gwifrau rhacslyd neu wifrau sydd wedi'i difrodi. Peidiwch byth â rhoi gwifrau o dan garpedi na rygiau ychwaith.
- Tynnwch blwg y teledu ac offer arall o'r wal cyn mynd i'r gwely.
- Peidiwch â gorlwytho socedi drwy ddefnyddio addasydd â lle i sawl plwg arno.

Nwy

Os ydych yn aroglu nwy:

- Diffoddwch sigarêts.
- Peidiwch byth â defnyddio matsien neu fflam agored.
- Peidiwch â defnyddio switsys trydanol.
- Agorwch y drysau a'r ffenestri i awyru'r ardal.
- Profwch offer nwy i weld os yw'r tap nwy dal ymlaen neu fod y fflam beilot wedi diffodd.
- Gadewch yr ystafell y mae'r offer nwy ynnddi a chaewch unrhyw ddrysau cysylltiol.

Os ydych yn meddwl bod nwy yn dal i ollwng, diffoddwch y cyflenwad nwy wrth ymyl y mesurydd a **ffoniwch Transco ar 0800 111999**. Gadewch yr eiddo a pheidiwch â mynd yn ôl i mewn iddo na chaniatáu i unrhyw un arall wneud hynny nes y cewch wybod ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny.

Rhybudd:

Efallai y byddwch yn gwneud eich hun yn agored i risg os ydych yn gosod ffan yn y nenfwd yn enwedig os oes gennych offer nwy yn yr un ystafell. Gall y ffan achosi gorlif o'r offer ac mae hynny'n wenwynig.

Mae popty mawr yn defnyddio cryn dipyn o nwy. Mae hyn, yn ei dro, yn cynhyrchu nifer fawr o gynhyrchion hylosgi. Dylech siarad â'r gwneuthurwr cyn gosod popty mawr yn eich cegin. Efallai y bydd angen offer awyru ychwanegol. Heb awyriad gall popty mawr fod yn beryglus.

Tanwydd Solet – dylech ei brynu oddi wrth aelod o'r Cynllun Gwerthwyr Glo Cymeradwy yn unig. Chwiliwch am y logo coch, glas a gwyn arbennig.

Bydd gwerthwyr cymeradwy yn:

- Cyflenwi ystod eang o danwydd solet gan sicrhau y gallwch bob amser fwynhau buddion tân go iawn.
- Disgrifio, paratoi a danfon eich tanwydd o ddewis yn gywir.
- Rhoi cyngor ar ba danwydd sy'n addas ar gyfer eich offer.
- Rhoi gwybod i chi am y prisiau diweddaraf ac am unrhyw ddisgownt neu gynigion arbennig sydd ar gael.

Ar yr adegau prin pan aiff pethau o le, bydd eich gwerthwr yn:

- Ymchwilio i unrhyw gŵyn am nwyddau neu wasanaeth yn brydlon ac mewn ffordd ystyriol.
- Wedi'i yswirio yn erbyn risgiau Atebolrwydd Cyhoeddus ac Atebolrwydd Nwyddau.

Cyngor ar Ddiogelwch

COFIWCH WNEUD Y CANLYNOL

- Sicrhau nad oes unrhyw gramen ar eich gwddfplat 24 awr ar ôl glanhau'r simnai.
- Tynnu a glanhau'r gwddfplat bob mis os oes gennych wresogydd ystafell neu stof.
- Defnyddio'r tanwydd cywir fel yr argymhellwyd gan eich Gwerthwr Glo Cymeradwy a gwneuthurwr yr offer.
- Dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar gyfer gweithredu, cynnal a glanhau eich offer.
- Cydweithredu â'ch landlord o ran caniatáu i weithwyr gael mynediad i'r eiddo i roi gwasanaeth ar eich offer - **mae hyn yn bwysig.**

PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL

- Diffodd gwely'r tân yn gyfan gwbl wrth ei ail-lenwi â thanwydd, oherwydd gall hynny arwain at broblemau hyllogi.
- Cau awyryddion ystafell.
- Gadael tân agored heb neb yn gofalu amdano heb ddefnyddio gard tân.

Bydd y cynghorion canlynol yn eich helpu i wella effeithlonrwydd eich offer.

Os ydych yn aroglu mwg neu eich bod yn teimlo'n anarferol o benysgafn neu'n dioddef â chur pen:

- Peidiwch ag aros yn yr ystafell am fwy o amser nag sydd raid.
- Agorwch y drysau a'r ffenestri i gyd.
- Gadewch i'r tân ddiffodd yn naturiol.
- Cysylltwch â'r Llinell Adrodd Atgyweiriadau.

Mae **Carbon Monocsid** yn nwy diarogl a di-flas sy'n gallu lladd ac anafu'n ddirybudd ymhen ychydig oriau yn unig.

Mae offer gwresogi a choginio sy'n defnyddio glo, tanwydd di-fwg, coed ac olew yr un mor debygol o achosi gwenwyno drwy garbon monocsid (CO) ag offer nwy os ydynt wedi'u gosod yn wael, yn ddiffygiol neu'n cael eu defnyddio yn y modd anghywir. Mae gwenwyno drwy garbon monocsid yn fwyaf tebygol o gael ei achosi gan awyriad annigonol neu ddiffyg cynnal a chadw offer, ffliwiau a simnai. Caiff rhai digwyddiadau eu hachosi gan offer sydd wedi'i osod yn anghywir a dirywiad y simnai. Cynhyrchir CO gwenwynig pan na fydd y tanwydd yn llosgi'n iawn.

Gall gwenwyno carbon monocsid eich lladd neu wneud niwed parhaol i'ch iechyd. Mae nwy CO yn ddiarogl ac yn ddi-flas, felly ni fyddwch yn ymwybodol ei fod yn bresennol. Rydych fwy tebygol o fod yn agored i niwed pan fyddwch chi'n cysgu yn arbennig os ydych yn oedrannus neu'n ifanc.

Mae symptomau gwenwyno CO yn debyg iawn i symptomau fflw. Maen nhw'n cynnwys blinder, syrthni, cur pen, teimlo'n benysgafn, poenau yn y frest a chyfog. Gall wynebau droi'n goch.

Os ydych chi'n amau eich bod wedi dioddef gwenwyno CO; ewch allan i'r awyr iach ar unwaith a cheisiwch anadlu ocsigen pur os yw ar gael.

Dylech geisio cael cyngor meddygol.

Gwnewch yn siŵr nad ydych chi agored i beryglon gwenwyno CO:

COFIWCH WNEUD Y CANLYNOL

- Sicrhau bod eich offer nwy a thanwydd solet yn cael ei osod, ei brofi a'i gynnal a chadw'n rheolaidd gan beiriannydd Diogelwch Nwy cymwys. Os nad yw eich offer wedi cael prawf ers dros flwyddyn neu os ydych yn teimlo nad yw'n gweithio'n iawn, ffoniwch y Llinell Adrodd Atgyweiriadau ar 02920 369379.
- Os ydych yn byw mewn fflat ac yn prynu popty nwy gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i osod gyda Dyfeisiau Goruchwyllo Fflam (Flame Supervision Devices -FSD). Mae'r ddyfais hon yn datgysylltu'r cyflenwad nwy os digwydd i'r fflam ddiffodd.
- Gwagio'r llwch o offer tanwydd solet yn rheolaidd, neu mae'n bosibl na fydd y tân yn llosgi'n iawn a gall achosi difrod i'r offer hefyd.
- Trefnu i lanhau eich simnai yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) hyd yn oed os ydych yn llosgi tanwydd di-fwg. Trefnu i lanhau eich simdde yn dilyn unrhyw gyfnod estynedig pan na ddefnyddiwyd yr offer.
- Glanhau fflwiau'r offer a'r fflw-bibelli sy'n cysylltu'r offer â'r simdde yn unol â'r hyn a argymhellir gan y gwneuthurwr.
- Gofalu eich bod yn trefnu i gael prawf ar eich gosodiad nwy a bod yr offer yn cael gwasanaeth bob blwyddyn.

PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL

Defnyddio'r tanwydd anghywir ar gyfer eich offer.

Caniatáu i bobl anghymwys (h.y. heb gofrestrriad Diogelwch Nwy) i osod, gwneud gwaith ar eich offer nwy na'i gynnal a chadw.

Cau neu roi rhwystr o flaen fentiau awyru ar ffenestri a drysau neu friciau aer sy'n cynnig llwybrau aer penodol.

Cau neu roi rhwystr o flaen allanfeydd fflwiau neu simnai.

Rhoi gorchudd ar offer neu gau allanfeydd aer poeth.

Defnyddio eich offer os ydych yn amau nad yw'n gweithio'n iawn **yn enwedig os ydych yn dioddef â rhai o'r symptomau y soniwyd amdanynt yn flaenorol.** Mae arwyddion sy'n awgrymu bod rhywbeth o'i le yn cynnwys mygdarth neu fwg yn yr ystafell, llosgi'n arafach nag arfer, ôl huddygl, anawsterau wrth gynnau'r offer a staeniau o amgylch y casyn.

Tân

- Cofiwch gadw matsys o olwg plant.
- Defnyddiwch gard tân o flaen tân agored.
- Peidiwch â gadael sosban tships ar y tân – ddiffoddwch y gwres os oes rhaid i chi adael y gegin.
- Peidiwch â hongian dillad dros danau, gwresogyddion neu boptai neu o'u hamgylch.
- Peidiwch â rhoi rhwystr o flaen drysau tân i'w cadw ar agor nac ymyrryd â'u peirianwaith fel na ellir eu cau.
- Sicrhewch fod pob drws wedi'i gau dros nos.
- Gwagiwch flychau llwch yn rheolaidd gan wneud yn siŵr fod y sigarêts wedi'u diffodd yn gyfan gwbl.
- Rhowch brawf ar eich canfodyddion mwg yn y rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn iawn.
- Peidiwch byth â chysgu yn eich ystafell fyw gan adael y tân ynghynn.

Os bydd tân mewn sosban tships – diffoddwch y gwres a rhowch gaead neu glwtyn gwlyb dros y sosban i fygu'r fflamau. **Peidiwch byth â chodi'r sosban neu dywallt dŵr drosti.**

Os bydd tân ar ddillad rhywun - rhowch y person i orwedd ar y llawr, eu rhoio mewn ryg neu gyrtlen i ddiffodd y fflam a ffoniwch am ambiwlans.

Os bydd tân yn eich cartref:

- Caewch ddrws yr ystafell y mae'r tân ynnddi.
- Gnewch yn siŵr fod pawb yn gadael yr adeilad.
- Ffoniwch y Gwasanaeth Tân – 999.
- Cysylltwch â'r adran Ymholiadau Tai ar y cyfle cyntaf posibl.

Peidiwch â mynd yn ôl i mewn i'r adeilad nes bydd y Swyddog Tân yn dweud y cewch chi wneud hynny.

Cwmpau – achos y rhan fwyaf o farwolaethau sy'n deillio o ddamweiniau yn y cartref yw cwmpo. Gallwch osgoi'r math yma o ddamwain drwy ddilyn y rheolau canlynol:

- Peidiwch â rhoi sglein ar y llawr o dan rygiau a charpedi.
- Gnewch yn siŵr fod golau da ar y grisiau a'r ardal ar ben y grisiau ac nad oes unrhyw rwystrau yno.
- Rhowch gât ar ben y grisiau os oes gennych blant bach.
- Gofalwch gloi ffenestri llawr uchaf y tŷ.
- Glanhewch unrhyw hylifau a arllwysir ar unwaith.
- Atgyweiriwch neu gorchuddiwch unrhyw dyllau mewn unrhyw orchuddion sydd ar y llawr er mwyn osgoi baglu.
- Sicrhewch fod y carped ar y grisiau wedi'i osod yn sownd.

Diogelwch – os ydych yn gadael y tŷ:

- Caewch bob ffenestr a'u cloi.
- Clowch y drws ffrynt a'r drws cefn.
- Peidiwch byth â gadael eich allwedd o dan y mat neu yn eich blwch llythyrau. Bydd lladron yn siŵr yn edrych yn y llefydd hyn.
- Cofiwch ganslo eich papur newydd a'ch llaeth pan fyddwch yn mynd i ffwrdd.
- Peidiwch byth â rhoi nodyn ar y drws sy'n dweud eich bod i ffwrdd.

Allweddi – nid oes gennym allweddi sbâr ar gyfer eich cartref. Os ydych yn colli eich allweddi a bod yn rhaid i ni ddefnyddio grym i gael mynediad i'ch cartref, byddwn yn codi tâl arnoch am unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen. Lle y bo'n bosibl, rhowch set o allweddi sbâr i berthynas neu gymydog. Efallai y bydd eich yswiriant cynnwys eich hun yn gallu delio â hyn (mae gan y Cyngor ei Yswiriant Cynnwys ei hun – mae'r manylion ar y daflen wybodaeth sydd ar wahân i'r wybodaeth hon).

Gwelliannau – Fel tenant diogel mae gennych hawl i wneud gwelliannau ar eich cartref ond ni chewch wneud hynny heb ganiatâd ysgrifenedig gan y Cyngor. Yn gyntaf dylech wneud ymholiadau i weld a oes angen Caniatâd Cynllunio neu gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu arnoch. Dylech sicrhau bod y rhain gennych cyn dechrau ar y gwaith.

Cyn ystyried cynnig i addasu eich cartref mae'n rhaid i chi anfon y manylion canlynol yn ysgrifenedig i'ch Swyddog Tenantiaeth i'w cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Tai.

- Manylion am yr addasiad.
- Pan fo cynnig yn cynnwys addasiad adeileddol; cynlluniau a manylebau'n diffinio'r gwaith
- Lle y bo'n bosibl, Caniatâd Cynllunio a chymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu.
- Digon o wybodaeth i asesu ansawdd y deunyddiau y bwriedir eu defnyddio, faint o aflonyddwch y gellir ei ddisgwyl tra bydd y gwaith yn cael ei wneud, a'r effaith posibl ar eiddo cyfagos.

Wrth ystyried y cais bydd y Cyngor yn asesu'r ffactorau canlynol:

- Na fydd y gwelliant yn gwneud eich cartref neu unrhyw eiddo cyfagos yn anniogel.
- Na fydd y gwelliant yn arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor yn y dyfodol.
- Na fydd y gwaith yn arwain at geisiadau gan drydydd parti oherwydd ei fod wedi aflonyddu arnynt.
- Y caiff y gwaith ei wneud i safon dderbyniol a chan adeiladwr cymwys priodol.
- Eich bod wedi cael y Caniatâd Cynllunio a/neu gymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu angenrheidiol.
- Nad yw'r gwaith yn difetha golwg yr eiddo a'i fod yn cyd-fynd â chynllun a gorffeniad eiddo tebyg iddo ar yr un safle.
- Na fydd yr addasiadau yn golygu y bydd yr eiddo'n anodd ei osod yn ddiweddarach.
- Lle y bo'n bosibl, y rhoddir rheolyddion addas ar waith i leihau effaith asbestos **petai** asbestos yn adeiledd yr adeilad.

Os caiff y gwaith ei gymeradwyo mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r Cyngor pan fyddwch yn dechrau ar y gwaith fel y gellir cynnal archwiliad wrth i'r gwaith fynd rhagddo os ystyrir bod angen hynny. Ym mhob achos bydd archwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal i sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt ac a gymeradwywyd.

Efallai y byddwch yn gymwys i gael ad-daliad am rai gwelliannau a awdurdodwyd pan ddaw eich tenantiaeth i ben.

Os ydych yn gwneud gwaith ar eich eiddo heb ganiatâd y Cyngor, gall y Cyngor adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol a chodi tâl arnoch chi am wneud y gwaith.

NODER

Nid all tenantiaid rhagarweiniol a thenantiaid sydd wedi'u hisraddio hawlio ad-daliad os caiff y denantiaeth ei therfynu yn ystod y cyfnod rhagarweiniol neu gyfnod israddio. Fodd bynnag, efallai y bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd i chi wneud gwelliannau yn amodol ar yr uchod.